

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd **Bethan Davies**
Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6565
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant**
(09.30)
- 2 Papur(au) i'w nodi**
(09.30)
 - 2.1 PTN1 – Ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gwaith Craffu Blyneddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru – 20 Chwefror 2020**

(Tudalennau 1 – 5)
 - 2.2 PTN2 – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020–21 – Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i argymhellion y Pwyllgor Cyllid – 28 Chwefror 2020**

(Tudalennau 6 – 17)
- 3 Effaith amrywiadau yn y dreth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth 3**
(09.30–10.30)

(Tudalennau 18 – 30)

Yr Athro James Foreman–Peck, Athro Economeg, Prifysgol Caerdydd

Papur 1 – Tystiolaeth ysgrifenedig: James Foreman–Peck a Peng Zhou, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)

Briff ymchwil
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
(10.30)



- 5 Effaith amrywiadau yn y dreth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Ystyried y dystiolaeth**
(10.30–10.45)
- 6 Ystyried y datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol**
(10.45–11.00) (Tudalennau 31 – 38)
Papur 2 – Ystyried y datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol
- 7 Taliadau cadw yn y sector adeiladu: Ystyried llythyr drafft**
(11.00–11.10) (Tudalennau 39 – 44)
Papur 3 – Llythyr drafft at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru – Ymchwiliad i Daliadau Cadw yn y Sector Adeiladu (Saesneg yn unig)
- 8 Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft**
(11.10–11.40) (Tudalennau 45 – 105)
Papur 4 – Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)
Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020 – 20 Chwefror 2020



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-08-20 PTN1

Item 2.1

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

Drwy'r e-bost:
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: IE20002/AC180/caf
Dyddiad cyhoeddi: 20 Chwefror 2020

Annwyl Llŷr

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am gefnogi ein hamcangyfrif diwygiedig ar gyfer y flwyddyn nesaf ac am gymeradwyo ein Cyllideb Atodol ar gyfer eleni. Yn dilyn eich adroddiad ar eich gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwn i nodi'r ymatebion yr ydym yn eu cynnig i argymhellion y Pwyllgor ynghylch ein hadroddiadau statudol.

Rydym yn ymdrin â phob un o'ch argymhellion yn eu tro, isod:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn falch bod dull mwy cynhwysol yn dod i'r amlwg o ran rhyngweithiadau'r Bwrdd â rhanddeiliaid a byddai'n croesawu diweddariad ar sut mae Strategaeth y Rhanddeiliaid yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'i rhanddeiliaid.

Gwneir gwaith yn ystod 2020-21 i edrych ar ddewisiadau gwahanol i fireinio ein dealltwriaeth o'n rhanddeiliaid a'u safbwyntiau ynghylch effaith ein gwaith. Rydym yn awyddus i ddod â rhywfaint o fewnbwn annibynnol i mewn i'n proses er mwyn adeiladu ar ein dull presennol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol yn nodi'r buddion hirdymor, gan gynnwys arbedion parhaus, a ddaw o unrhyw daliadau cynllun ymadael gwirfoddol.

Mae'r Adroddiad ar Gynabyddiaeth a Staff, o fewn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cynnwys nodyn ar yr arbedion blynyddol a ddisgwylir o gynlluniau

ymadael gwirfoddol. Byddwn yn ymhelaethu ar hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu diweddariad yn ei Hadroddiad Blynyddol nesaf ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd fel diffygion o ran rheolaeth fewnol yn yr Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad.

Nodwyd 3 'Diffyg mewn Rheolaeth Fewnol' yn yr Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad.

1. Nid oedd y Tîm Cyllid wedi cael ei hysbysu y byddai bil ychwanegol yn cael ei godi am archwiliad os oedd y costau'n uwch na'r ffi y cytunwyd arni. O ganlyniad, nid oedd yr incwm hwn wedi'i gydnabod yn ein cyfrifon am y flwyddyn. Mae proses wedi'i sefydlu i sicrhau bod unrhyw amrywiadau o'r fath yn cael eu dilyn yn brydlon er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn digwydd eto. I'w roi yn ei gyd-destun, roedd hyn yn cynrychioli £75,000 o'n holl incwm ffioedd am y flwyddyn, oedd dros £14.6 miliwn.
2. Adroddodd yr archwilwyr fod dwyn gliniadur, yn rhannol o leiaf, yn groes i'r polisi diogelwch gwybodaeth ond bod yna le i'r polisi gael ei wneud yn fwy eglur. Mae'r Bwrdd bellach wedi cytuno ar bolisïau diwygiedig.
3. Roedd datganiadau buddiannau blynyddol ar gyfer aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli wedi'u casglu ond nid oeddent wedi'u cyhoeddi ar y wefan ar adeg yr archwiliad am y disgwyliad am gyfieithiad. Mae'r rhain bellach ar gael ar ein gwefan.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adroddiad blynyddol nesaf Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'n glir wybodaeth gymaradwy ar gyfer ei dangosyddion 2018-19 ochr yn ochr â'r canlyniadau ar gyfer ei dangosyddion diwygiedig yn 2019-20, er mwyn sicrhau y gellir olrhain y mesurau sy'n perfformio waethaf.

Ac eithrio'r dangosydd oedd wedi ei gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol 2018-19, oedd wedi ei fwrddu i fesur ein dylanwad ar y cyfryngau cymdeithasol drwy'r Sgôr Klout sydd bellach wedi darford, cadwyd yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol eraill (DPA) yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20. Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

Dylai'r Pwyllgor nodi bod y dangosyddion blaenorol a oedd yn gysylltiedig â'r arolwg staff a restrwyd ar dudalen 34 ein Cynllun Blynyddol 2018-19 wedi'u cynnwys unwaith eto yn ein Cynllun 2019-20 fel dangosyddion perfformiad allweddol 11 a 12 (sy'n cynnwys cyfres fwy cynhwysfawr o ddangosyddion thematig yr arolwg staff).

Mae'r Bwrdd wedi herio'r arweinyddiaeth weithredol i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol â mwy o ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n golygu y bydd rhai newidiadau mewn cymharedd o flwyddyn i flwyddyn. Byddwn

yn falch i egluro ein rhesymau dros hyn i'r Pwyllgor oherwydd yr hyn sy'n cyfrif fwyaf yw ein gallu i ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i yrru gwelliannau mewn busnes yn y meysydd blaenoriaeth yr ydym yn eu nodi.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth adolygu mesurau perfformiad allweddol, y dylai Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod y gallu i olrhain perfformiad yn y dyfodol yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn cael ei ddiogelu.

Mae sicrhau'r gallu i olrhain perfformiad yn y dyfodol yn erbyn perfformiad y blynyddoedd blaenorol yn egwyddor allweddol sy'n sail i'n hadolygiad o fesurau perfformiad. Fodd bynnag, mae penderfynu pa ddangosyddion sy'n cyd-fynd orau â'n huchelgeisiau strategol newydd ac felly'n ffurfio ein cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol hefyd yn ystyriaeth allweddol. Byddwn yn parhau i olrhain perfformiad yn barhaus yn erbyn amrediad llawer ehangach o ddangosyddion gweithredol, y cyflwynir adroddiadau yn erbyn llawer ohonynt hefyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'w Strategaeth Ystadau ddatblygu, gan gynnwys yr effaith ar raglen gyfalaf SAC ac unrhyw dargedau arbedion y cytunwyd arnynt.

Bydd diweddariad ar y Strategaeth Ystadau yn cael ei gynnwys yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2021-22.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ei gwaith gyda chyrrff archwilio sy'n bartneriaid mewn perthynas â'r rhaglen Dadansoddeg Data.

Bu cydweithio yn un o brif elfennau ein gwaith ers dechrau'r rhaglen Dadansoddeg Data. Rydym yn cydnabod bod gan lawer o sefydliadau uchelgeisiau tebyg i ni ynglŷn â thrawsnewid y defnydd o ddata. Ac rydym yn sylweddoli na ddylai SAC, fel corff cymharol fychan, ddisgwyl meddu ar yr holl atebion yn fewnol.

Buom felly yn cyrraedd allan at nifer o sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt. Yn neilltuoel, buom yn cydweithio â chyrrff archwilio sy'n bartneriaid yn y DU ac Iwerddon.

Rydym wedi meithrin perthynas dda â thimau data'r cyrrff hyn, drwy gyfarfodydd strategaeth/cynllunio bob chwe mis. Mae'r rhain wedi arwain at gyfarfodydd gweithredol misol, sy'n canolbwyntio ar brosiectau penodol, technegau data neu broblemau yr ydym yn eu cael. Rydym bellach yn rhannu cod, ac yn ymroi i helpu'n gilydd ar brosiectau dadansoddeg data penodol. Ein bwriad yn awr yw adeiladu ar y cydberthnasau cadarnhaol hyn ac ehangu'r cydweithio hwn ymhellach fyth.

Byddwn yn adrodd am hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Amcangyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol yn nodi'r costau a'r buddion a ddisgwylir a'r rhai a wireddwyd drwy'r rhaglen Dadansoddeg Data.

Rydym wedi nodi pum budd penodol y bwriadwn eu sicrhau drwy Ddadansoddeg Data. Y rhain yw mwy o hyder yn ein gwaith; sylfaen dystiolaeth well ar gyfer ein gwaith; amrediad ehangach o ddulliau/delweddu dadansodol; arbedion amser/cost; a'n syniadau'n cael eu mabwysiadu gan eraill.

Drwy ein Fframwaith Gwireddu Buddion, rydym yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd am effaith ein prosiectau dadansoddeg data. Hyd yn hyn, naratif ansodol oddi wrth ddefnyddwyr ein hoffer fu llawer o'r wybodaeth hon.

Lle bynnag y bo modd, rydym hefyd yn casglu data i allu mesur maint ein heffeithiau. Mae hwn yn faes y gwyddom fod angen inni ei gryfhau, ac ar gyfer Amcangyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol byddwn yn cynnwys manylion pellach am yr arbedion effeithlonrwydd yr ydym wedi'u sicrhau, yn ogystal â'r buddion eraill, sydd yr un mor bwysig.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newid ei system archwilio ariannol, gan gynnwys unrhyw arbedion a manteision effeithlonrwydd disgwyliedig o'r buddsoddiad hwn.

Daw'r contract ar gyfer y system archwilio ariannol gyfredol i ben ym mis Rhagfyr 2021 ac ni ellir ei adnewyddu. Rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso tri dewis yn fras:

- caffael system 'oddi ar y silff';
- adeiladu system yn seiliedig ar SharePoint a fyddai'n cyd-fynd â'n system archwilio perfformiad ni; a
- datblygu system bwrpasol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU.

Bwriadwn gwblhau'r gwerthusiad hwn erbyn haf 2020 a rhoddwn ddiweddariad pellach i'r Pwyllgor unwaith y bydd y gwerthusiad hwnnw wedi'i gwblhau, yng nghyd-destun ein Hamcangyfrif ar gyfer 2021-22 a dull gweithredu newydd yr ydym yn ei sefydlu gyda Rhaglen Newid Gorfforaethol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn i Gynllun Ffioedd 2020-21 gael ei osod gerbron y Cynulliad, bod manylion yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Cyllid am y modd y mae'r cynnydd o £240,000 yn yr incwm o ffioedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gost o gyflawni gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.


Anfonwyd llythyr at y Pwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr 2019, ynghyd â chopi o'r Cynllun Ffioedd, oedd yn rhoi'r manylion y gofynnir amdanynt. Diolchwn i'r Pwyllgor am gymeradwyo'r Cynllun Ffioedd.

Hyderwn fod yr uchod yn rhoi i'r Pwyllgor y sicrwydd y mae'n ei geisio ond cofiwch ddod yn ôl atom os oes gennych unrhyw ymholiadau dilynol.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru



ISOBEL EVERETT
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eitem 2.2

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-RE-0709-20

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

28 Chwefror 2020

Annwyl Llyr,

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 (Ionawr 2020)

Yn unol â'r ymrwymiad i ymateb i holl adroddiadau'r Pwyllgorau ar y Gyllideb ddrafft erbyn y diwrnod cyn dadl derfynol y Gyllideb fan bellaf, mae'n bleser gennyf amgáu yn Atodiad A ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar graffu Gyllideb Ddrafft 2020-21 (Ionawr 2020).

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eich cydweithrediad i hwyluso'r newidiadau i amserlen y gyllideb eleni, gan gynnwys y cyfnod cwctogi ar gyfer craffu.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 6

Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2020-21

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai dadl ar flaenoriaethau gwariant gael ei chynnwys yn amserlen y gyllideb, er mwyn rhoi cyfle i'r Cynulliad ddylanwadu ar flaenoriaethau a dyraniadau cyllideb yn gynharach yn y broses.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r gwaith o graffu ar ein cynigion cyllidebol mewn modd ystyrlon ac effeithiol. Gwelir hyn yn y camau rydym wedi'u cymryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys symud i broses dau gam y gyllideb sy'n darparu ar gyfer wyth wythnos o graffu. Mewn ymateb i'r galwadau a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid wrth graffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 am i'r Llywodraeth ddarparu datganiad cynnar ar flaenoriaethau gwariant, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Ddatganiad Llafar yn y Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf yn nodi'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Gwnaethom hefyd groesawu dadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant y Llywodraeth ym mis Medi. Rydym yn croesawu'r cyfle i ystyried, ar y cyd â Phwyllgorau Busnes a Chyllid y Senedd, sut y gallai dadl ar flaenoriaethau gwariant gael ei chynnwys yn amserlen y gyllideb.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i archwilio rhinweddau gwahanol ddulliau ar gyfer goruchwyllo cymhwysiad y Datganiad o Bolisi Cyllido, fel goruchwyllo gan gorff sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, y Comisiwn Cyfansoddiad, Democratiaeth a Hawliau o bosibl.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor wedi cydnabod y mater pwysig hwn. Ar y cyd â'r Gweinidogion Cyllid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ceisio ymrwymiad i gynnal Cyfarfod Pedairochrog i'r Gweinidogion Cyllid cyn cyhoeddi Cyllideb y DU ar 11 Mawrth. Bydd Gweinidogion Datganoledig yn galw am i'r gwaith ar y cyd i adolygu a gwella'r Datganiad o Bolisi Cyllido gael ei gwblhau, gan gynnwys rhoi peirianwaith effeithiol ar waith, gyda gweithdrefn gredadwy a dichonadwy i osgoi a datrys anghydfodau yn sail i hyn.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio ymrwymadau gan Lywodraeth y DU y bydd digwyddiadau cyllidol y DU fel arfer yn cael eu cynnal erbyn dyddiad penodol i sicrhau bod gan weinyddiaethau datganoledig ddigon o amser i bennu cyllideb a gwneud gwaith craffu ystyrlon.

Ymateb: Derbyn

Mae'r rhyngweithio rhwng amserlen ein cyllideb ac amserlen cyllideb Llywodraeth y DU yn fater sydd wedi cael ei ystyried yn y gorffennol, ond mae'r chwithigrwydd eleni wedi bod yn fwy amlwg. Mae'r Pwyllgor wedi argymhell mewn blynyddoedd blaenorol y dylem barhau â'r arfer bresennol o gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft, ni waeth pryd y cyhoeddir Cyllideb y DU. Rydym wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Er bod amseru digwyddiadau cyllidol y DU yn fater i Lywodraeth y DU, byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r Gweinyddiaethau Datganoledig o ran amseru digwyddiadau cyllidol y DU, o ystyried effaith hyn ar ein priod weithdrefnau cyllidebol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gyd-drafod â Llywodraeth y DU i sicrhau cyfarfodydd pedairochrog amlach a mwy strwythuredig gyda Gweinidogion Cyllid y DU.

Ymateb: Derbyn

Yn y llythyr diweddar a luniwyd ar y cyd i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, galwodd y Gweinidogion Cyllid Datganoledig ar Lywodraeth y DU i gwblhau'r gwaith ar y cyd i ffurfioli Cyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid fel fforwm rheolaidd i drafod a datrys materion cyllidol sy'n effeithio ar lywodraethau datganoledig.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl i Gyllideb y DU gael ei chyhoeddi, sy'n manylu ar unrhyw effaith a gaiff rhagolygon macro-economaidd y DU, yn enwedig unrhyw effaith ar refeniw'r trethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

Ymateb: Derbyn

Yn y ddadl ar y Gyllideb ddrafft, addawodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y byddai'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y goblygiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl i Gyllideb y DU gael ei chyhoeddi. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys effaith unrhyw gyhoeddiadau gwariant drwy fformiwla Barnett, a hefyd yr effaith y mae'r rhagolygon macro-economaidd newydd yn debygol o'i chael ar refeniw'r trethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailgychwyn trafodaethau am drethi newydd gyda Llywodraeth y DU cyn gynted â phosibl er mwyn profi'r broses, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd gyda Llywodraeth y DU i sicrhau pwerau ar gyfer treth ar dir gwag yng Nghymru.

Erbyn hyn mae cyfarfod o Gydbwyllgor y Trysorlysoedd wedi'i gynnal i drafod y cynnig, ac rydym wedi anfon cais ffurfiol am bwerau trethu newydd i Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried y cais ar hyn o bryd.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu ffynonellau data newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am Gynnyrch Domestig Gros Cymru, er mwyn gwella cywirdeb rhagolygon economaidd a threthi datganoledig Cymru.

Ymateb: Derbyn

Caiff y modelau rhagweld sy'n sail i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn eu cynnal gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn sicrhau bod y modelau hynny'n defnyddio'r ffynonellau data gorau sydd ar gael. Mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru hefyd yn cysylltu â dadansoddwyr y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch rhagolygon treth incwm ac yn cymryd rhan mewn sesiynau herio yn ystod pob ymarfer rhagweld. Mae cyhoeddiad newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o dwf chwarterol Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ychwanegiad a groesewir at y sylfaen dystiolaeth economaidd. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr ystadegau hyn yn arbrofol a'u bod yn cael eu datblygu a'u profi â defnyddwyr o hyd. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y cyfresi'n anwadal ac yn ddarostyngedig i ddiwygiadau eithaf mawr. Os profir, ymhen amser, eu bod yn ddangosydd defnyddiol o dwf referniw treth, bydd achos da dros eu hystyried yn y rhagolygon treth. Maent yn fwyaf tebygol o fod o ddefnydd mewn perthynas â rhagolygon treth incwm, lle mae oedi hir cyn i wybodaeth alldro gael ei chyhoeddi. Bydd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddiddordeb mewn unrhyw ffynhonnell ddata a all wella ei hasesiad o'r sefyllfa referniw bresennol.

Fel y nodwyd yn ei chyhoeddiad Rhagolwg Trethi Cymreig, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi ystyried gwerth rhagolwg macro-economaidd llawn i Gymru. Oherwydd y tebygrwydd mewn cyfraddau twf hanesyddol rhwng Cymru a gweddill y DU, pan gânt eu mynegi ar sail "y pen", a materion sy'n ymwneud ag argaeledd a dibynadwyedd data, daw i'r casgliad bod mwy o werth mewn monitro cydgyfeiriad ac ymwahaniad rhwng Cymru a'r DU mewn newidynnau economaidd penodol sy'n berthnasol i'r trethi.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch lefel y gwallau codio y mae Cyllid a Thollau EM yn eu gwneud mewn perthynas â threthdalwyr Cymru ac mae'n argymhell bod y gyfradd wallau yn parhau i gael ei monitro gan Lywodraeth Cymru a bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor yn dilyn y broses sganio nesaf.

Ymateb: Derbyn

Cyflwynwyd codau C i system dreth y DU am y tro cyntaf fis Ebrill diwethaf. Mae oddeutu 97% o'r codau C bellach yn gweithredu'n gywir. Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â CThEM, sydd â rhaglen barhaus o waith cydymffurfio i

gynyddu ymhellach ganran y codau C sy'n cael eu defnyddio'n briodol. Yn dilyn y sgan diweddaraf, mae'r gwallau codio wedi lleihau eto a disgwylir iddynt leihau ymhellach pan ddaw data i law ym mis Ebrill. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd data o'r sgan nesaf ar gael.

Yn gyffredinol, mae'r problemau o ran gweithrediad codau C yn cyfateb yn fras i'r profiad a gafwyd wrth gyflwyno codau S i drethdalwyr yr Alban, lle mai dim ond 1.5% o'r codau S nad ydynt yn cael eu defnyddio'n briodol ar hyn o bryd. Cyflwynwyd codau S i system dreth y DU ym mis Ebrill 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa drwy gyfarfodydd llywodraethu â CThEM, a gynhelir bob mis fel arfer.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall integreiddio'r nodau llesiant yn well wrth gyflwyno cyllidebau yn y dyfodol i ddangos yn fwy cyson sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei hymgorffori ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ei hadrannau a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses gyllidebol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb.

Ymateb: Derbyn

Diben Cynllun Gwella'r Gyllideb, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf fel rhan o Gyllideb ddrafft 2020-21, yw nodi sut y byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio i sicrhau gwelliant parhaus ym mhroses y gyllideb. Fel rhan o'r Cynllun, byddwn yn archwilio sut y gall y broses o gyflwyno cyllidebau blynyddol yn y dyfodol ddangos yn fwy eglur y ffordd y mae'r Ddeddf a'n hamcanion llesiant wedi dylanwadu ar ein blaenoriaethau gwariant strategol. Mae ymgysylltu yn un o elfennau allweddol y Cynllun, sy'n cynnwys camau gweithredu i ddatblygu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa, ynghylch y broses o gyflwyno'r Cynllun.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn cyfnod yr amser a gwmpesir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb i adlewyrchu ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thrawsnewid tymor hwy.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn derbyn ysbryd yr argymhelliad hwn sy'n ymwneud â sicrhau trawsnewid tymor hwy a dyna'r rheswm pam y mae'r Cynllun yn ceisio dangos y daith rydym wedi bod arni, a'r daith sydd o'n blaenau, i wella proses y gyllideb dros sawl blwyddyn. Dyma'r tro cyntaf i ni gyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb. Bwriedir iddo fod yn ddatblygiadol ei natur oherwydd, bob tro y caiff ei gyhoeddi, bydd yn cynnwys cyfnod o bum mlynedd a rhaglen dreigl o welliannau, gan ddangos sut y mae'r

Ddeddf yn cael ei hymgorffori. Mae'r dull gweithredu hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn uchelgeisiol ond hefyd yn realistig o ran yr amser y bydd yn ei gymryd i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun er mwyn gwneud y mwyaf o'u heffaith ac adlewyrchu mewn ffordd ystyrlon natur y newid a amlinellir yn y cynllun. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i ddeall sut y gallem wella'r cynllun ac ehangu ei gwmpas ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â chyllideb 2021-22, a chyllidebau'r dyfodol, roi cyfrif tryloyw o effaith negyddol yn ogystal ag effaith gadarnhaol dyraniadau'r gyllideb, gan gynnwys y dystiolaeth sy'n sail iddynt.

Ymateb: Derbyn

Yn unol â thystiolaeth ac adborth blaenorol, mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r Gyllideb ddrafft yn nodi manylion y dystiolaeth, yr ystadegau a'r wybodaeth ategol sy'n sail i'r cynigion gwariant, cam a gydnabyddir gan y Pwyllgor. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i asesiadau effaith ystyried effaith negyddol ac effaith gadarnhaol er mwyn lliniaru effeithiau negyddol ac archwilio cyfleoedd i hyrwyddo dull gweithredu mwy cadarnhaol.

Mae Cyllideb 2020-21 wedi darparu cynnydd mewn termau real ar gyfer pob portffolio. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu cynnal y mwyafrif o gyllidebau ar lefelau 2019-20 a gwneud nifer o fuddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â'n blaenoriaethau trawsbynciol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn naratif yr Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Yn unol â'n hargymhelliad parhaus i wella'r ffordd rydym yn asesu effaith ein penderfyniadau gwario, mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi ystod o gamau gweithredu i atgyfnerthu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ymhellach.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad ei thrafodaethau â Llywodraeth yr Alban ar rôl Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn yr Alban, ac unrhyw newidiadau o ran dull posibl yn dilyn yr ystyriaethau hyn.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio tystiolaeth ac arferion gorau o waith a wneir mewn manau eraill fel sylfaen ar gyfer dull cyllidebu sy'n sensitif i rywedd, a hynny er mwyn prif ffrydio dimensiwn rhywedd i bob agwedd ar gylch y gyllideb yn ddi-oed.

Ymateb: Derbyn

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â Chadeirydd Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn yr Alban ynghylch dull gweithredu'r Grŵp yn yr Alban fel rhan o drafodaethau yn ystod yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol.

Rydym hefyd yn mynd ar drywydd trafodaethau â Llywodraeth yr Alban wrth i ni sefydlu ein cydberthynas â rhwydwaith Llywodraeth yr Economi Llesiant.

Ym mis Tachwedd, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru weithdy ag aelodau presennol Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb a rhanddeiliaid ehangach i ystyried sut y gall y grŵp hwn ddatblygu fel ei fod yn parhau i ddarparu dealltwriaeth o effaith ein penderfyniadau cyllidebol ein hunain, mewn perthynas â'r holl ystyriaethau effaith, gan gynnwys cydraddoldeb.

Byddwn yn ystyried yr adborth o'r sesiynau hyn yn ofalus er mwyn ffurfio ein hymagwedd at Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn y dyfodol a'r ffordd rydym yn ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid maes o law ynghylch unrhyw newid i'n hymagwedd.

Fel rhan o'r paratodau ar gyfer cyllideb 2020-21, rydym yn ystyried dull cyllidebu ar sail rhyw fel rhan o gynllun peilot y Cyfrif Dysgu Personol er mwyn asesu sut y gallai dull cyllidebu ar sail rhyw helpu i nodi a deall effeithiau gwahanol posibl, gan gynnwys effeithiau nas bwriedir, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau. Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi ein huchelgeisiau i brofi ac integreiddio rhywedd, gan archwilio a datblygu dull cyllidebu ar sail rhyw yn ein hystyriaethau cyllidebu. Fel rhan o hyn, byddwn yn defnyddio tystiolaeth ac arferion gorau o ystod o ffynonellau i lywio ein gwaith parhaus.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion yn y blynyddoedd i ddod ar sut y bydd dyraniadau a rhaglenni yn bwrw ymlaen tuag at yr ymrwymiad i fod yn garbon niwtral erbyn 2050 a beth fydd yr amserlen ar gyfer cyflawni hyn.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dealltwriaeth o effaith y gyllideb ar garbon a'i phenderfyniadau gwariant, ac yn edrych ar sut y gall ddangos yn ystyrllon effaith cyllidebau'r dyfodol ar garbon.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â datblygu cyfrif effaith ar garbon ac archwilio ffyrdd eraill y gall swyddfa'r Comisiynydd, gyda'i graddau o annibyniaeth, ddarparu rhagor o gyngor a chymorth i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau datgarboneiddio a'i hamcanion llesiant.

Ymateb: Derbyn

Drwy ddatblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb, byddwn yn parhau i ystyried sut y gellir gwneud y gwaith o asesu effaith ein rhaglenni gwario ar garbon yn rhan fwy cadarn o broses y gyllideb. Bydd hyn yn ystyried effaith gynyddrannol gwariant Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r effaith ehangach y mae gweithredu polisïau yn ei chael ar allyriadau carbon.

Yn ogystal, bydd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf yn cynnwys manylion am y ffordd y bydd polisiau allweddol yn ein galluogi i fodloni ein cyllideb garbon, gan roi eglurder a sicrwydd i fusnesau ac unigolion. Rydym eisoes yn datblygu'r polisiau a'r cynigion a fydd yn ein galluogi i roi cynllun ar waith i fodloni ein hail gyllideb garbon. Rydym yn cydnabod y bydd yr uchelgais cynyddol yn golygu y bydd angen mwy o ymdrech polisi i gyflawni ein targed newydd.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cael rhagor o gyngor ac argymhellion penodol i Gymru gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, gan gynnwys argymhellion ar newid ein llwybr drwy ein targedau ar gyfer 2030 a 2040 a'n hail gyllideb garbon. Byddwn hefyd yn cael adroddiad am gynnydd ein cyllideb garbon gyntaf, a bydd Trysorlys EM yn cynnal adolygiad o'r modd y byddai'r cynllun pontio i sero-net yn cael ei ariannu a phwy fyddai'n ysgwyddo'r costau. Mae pob un o'r rhain yn ddarnau allweddol o dystiolaeth y bydd angen i ni eu hadolygu wrth ddatblygu'r ffordd rydym yn asesu effaith ein penderfyniadau cyllidebol.

Wrth ddatblygu asesiad ystyrlon, mae'n bwysig cydnabod nad yw asesu cyfraniad uniongyrchol gwariant penodol at ddatgarboneiddio yn syml mewn llawer o achosion, oherwydd rhyngddibyniaethau cryf ag ymyriadau eraill. Fodd bynnag, pan fydd y buddsoddiad yn un y gellir gwneud amcangyfrif ystyrlon yn ei erbyn o ran ei effaith ar garbon, mae'n iawn i ni ymgymryd â'r asesiad hwnnw.

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi â swyddogion o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y New Economics Foundation ac uwch-swyddogion polisi Llywodraeth Cymru i fyfyrion ar y cynllun 10 pwynt. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth am y gwaith y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei wneud ar effeithiau ar garbon.

Rydym yn croesawu bwriad y Comisiynydd i ymgymryd â gwaith mewn perthynas â datblygu cyfrif effaith ar garbon, ac edrychwn ymlaen at ystyried ei gasgliadau maes o law.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn nogfennaeth cyllidebau'r dyfodol sut y mae'n cymhwyso ei diffiniad ei hun o waith atal i wariant, a'i bod yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am y canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni drwy ei strategaethau ataliol.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi newid parhaus mewn buddsoddiad tuag at weithgareddau ataliol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb. Byddwn yn ystyried sut y gallwn nodi'n fwy eglur y gwelliannau rydym yn eu gwneud i ddogfennaeth cyllidebau'r dyfodol, gan gynnwys sut y gallwn ddatblygu ein diffiniad o atal.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o wariant ataliol yn y gyllideb ac yn sbarduno camau gweithredu sy'n ymwneud ag atal yn ei Chynllun Gwella'r Gyllideb.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu mwy o fanylder o ran y buddsoddiad rydym yn ei wneud i weithgarwch ataliol yn y Gyllideb flynyddol. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth ac felly rydym yn awyddus i sicrhau bod unrhyw ddadansoddiad o'r fath yn gadarn, yn ystyrlon ac yn cynnig diben clir o ran gwella dyraniadau cyllidebol. Drwy gyflwyno Cynllun Gwella'r Gyllideb, byddwn yn ystyried sut y gallem sbarduno'r gweithgareddau presennol a nodir yn y cynllun.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddod o hyd i ffyrdd gwell o ddangos tystiolaeth o'r broses o nodi blaenoriaethau, cyfleu'r broses honno a gwneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r paratodau ar gyfer Cyllideb ddrafft 2020-21, cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys pob un o'n pedwar Comisiynydd statudol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, er mwyn clywed eu barn am feysydd blaenoriaeth ar gyfer y Gyllideb. Mae gwaith ymgysylltu o'r fath yn un o elfennau allweddol Cynllun Gwella'r Gyllideb, sy'n amlinellu ein huchelgeisiau parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd ystyrlon er mwyn llywio gwelliannau i gynigion gwariant a threthiant. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys defnyddio adborth o'n gweithdy diweddar â Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu dull gweithredu gwell ar gyfer ymgysylltu ynghylch ystyriaethau cyllidebol yn y dyfodol.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu diffiniad o dlodi yng nghyd-destun Cymru ac yn nodi'n glir ei gweledigaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru, gan gynnwys: effeithiau dosbarthiadol, y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni drwy ymyriadau tldi wedi'u targedu a chmau i ymateb i effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mabwysiadu diffiniad o dlodi sy'n ehangach na mesur incwm. Mae hwn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Tlodi Plant.

Rydym yn sylweddoli nad yw mesurau safonol, megis seilio diffiniad ar incwm yn unig, yn cwmpasu natur amlddimensiynol tldi. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mabwysiadu un model amgen ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni megis Dechrau'n Deg. Rydym hefyd yn ystyried dichonoldeb gwella manwl gywirdeb a chwmpas dadansoddiadau o amcangyfrifon tldi yng Nghymru a geir o ddata Arolwg o Adnoddau Teulu yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'n bwysig cydnabod bod mesurau tlodi yn gymharol, felly mae angen i ni fod yn ofalus wrth gymhwyso rhai diffiniadau yn rhy llym. Mae angen i ni gydnabod, cyn belled ag y bod modd, y gwahaniaethau rhwng amgylchiadau pobl a cheisio teilwra ein cymorth yn unol â hynny fel bod ein buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol ar fesurau tlodi amgen.

Mae ein gweledigaeth i leihau tlodi cymaint â phosibl yn dibynnu ar fesurau uniongyrchol i roi arian ychwanegol ym mhocedi pobl, ond hefyd roi mesurau tymor hwy ar waith ym meysydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a fydd yn arwain at weithlu medrus â chyflog da.

Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y polisiau sy'n cefnogi ein gweledigaeth yn barhaus, a byddwn yn eu haddasu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ac yn cefnogi ein huchelgeisiau i leihau lefelau tlodi yng Nghymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU afael gadarn ar yr ysgogiadau polisi sy'n effeithio ar y prif ffigur tlodi, ac rydym yn rhoi mesurau ar waith gyda'r nod o liniaru effeithiau'r polisiau hyn.

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaethau newydd i wella addysg, sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth aelodau mwyaf difreintiedig y gymdeithas.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

